I gael rhagor o wybodaeth a chyngor ar fwyd ewch i wefannau'r Asiantaeth Safonau Bwyd:

food.gov.uk

eatwell.gov.uk

Cliciwch ar 'Cymraeg'

Cyhoeddiadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd

I archebu copïau o'r ddogfen hon neu unrhyw un o gyhoeddiadau eraill yr Asiantaeth, cysylltwch â Chyhoeddiadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd:

ffôn: **0845 606 0667**

minicom: **0845 606 0678**

ffacs: **020 8867 3225**

e-bost: **foodstandards@ecgroup.co.uk**

Cyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd 2010

Dyluniwyd gan farm Argraffwyd gan Image Data Print

Hawlfraint y Goron 2010

Argraffwyd yn Lloegr ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffeibr wedi'i ailgylchu.

FSA/1492/0110

ailgylchwch

Ar ôl gorffen gyda'r llyfryn hwn a fyddech cystal â'i ailgylchu

ASIANTAETH SAFONAU BWYD

Gall sgôr hylendid da gan eich awdurdod lleol eich helpu i gadw eich cwsmeriaid

ASIANTAETH SAFONAU BWYD

Sgoriau hylendid bwyd:

Dweud wrth eich cwsmeriaid pa mor hylan yw eich busnes

Bydd y cynllun sgorio hylendid bwyd cenedlaethol yn cyrraedd eich ardal chi cyn bo hir

Yn 2010, mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, yn bwriadu cyflwyno cynllun sgorio hylendid bwyd cenedlaethol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Bydd y cynllun yn ei gwneud yn hawdd i ddefnyddwyr gael gafael ar wybodaeth am safonau hylendid mewn busnesau bwyd, er mwyn eu helpu i wneud dewisiadau gwybodus am ble i brynu a bwyta bwyd.

Rydym am i'ch busnes gael y sgôr gorau posibl. Mae sgôr hylendid da yn hwb i fusnes.

A fydd eich busnes yn cael ei sgorio?

Bydd bwytai, siopau tecawê, caffis, siopau brechdanau, tafarndai, gwestai, archfarchnadoedd a safleoedd manwerthu bwyd eraill, yn ogystal ag unrhyw fusnes arall lle gall pobl fwyta neu brynu bwyd, yn cael sgôr.

Sut bydd eich sgôr yn cael ei gyfrifo?

Ar ôl eich archwiliad hylendid bwyd, a fydd wedi'i gynllunio ymlaen llaw gyda'ch awdurdod lleol, bydd eich busnes yn cael sgôr am safon yr hylendid ar adeg yr archwiliad. Bydd y sgôr hwn yn seiliedig ar:

- Ba mor hylan y caiff y bwyd ei drin – paratoi, coginio, ailgynhesu, oeri a storio bwyd yn ddiogel.
- Cyflwr eich safle – glendid, cynllun y safle, golau, system awyru a chyfleusterau eraill.
- Sut ydych chi'n rheoli a chofnodi diogelwch bwyd drwy ddefnyddio system megis 'Bwyd mwy diogel, busnes gwell' neu 'Safe Catering'.

Byddwch yn cael un o chwe sgôr - mae'r sgôr uchaf yn golygu eich bod wedi cydymffurfio â'r gyfraith i safon uchel iawn. Dylai unrhyw fusnes, waeth pa mor fach ydyw, allu cyflawni'r sgôr uchaf. Bydd y cynllun yn cynnwys mesurau i sicrhau bod y sgôr a roddir i chi yn un teg.

Sut bydd eich cwsmeriaid yn gwybod beth yw eich sgôr?

Bydd eich sgôr yn cael ei gyhoeddi ar wefan ddwyieithog genedlaethol, a gall eich cwsmeriaid gymryd cip ar y wefan hon. Rydym hefyd yn eich annog i arddangos y dystysgrif neu'r sticer sy'n nodi eich sgôr, a fyddwch yn eu cael gan eich awdurdod lleol, mewn man lle y gall eich cwsmeriaid ei weld yn hawdd pan fyddant yn ymweld â'ch safle. Y bwriad yw, ymhen amser, y bydd cwsmeriaid yn dod i ddisgwyl gweld tystysgrifau a sticeri o'r fath yn cael eu harddangos.

Beth yw'r manteision i chi a'ch cwsmeriaid?

Bydd y cynllun yn hysbyseb da i'r busnesau hynny sy'n cydymffurfio â chyfraith hylendid bwyd. Mae hylendid bwyd da yn golygu sgôr hylendid da, ac mae sgôr hylendid da yn hwb i fusnes.

Beth yw'r camau nesaf?

- Darllenwch adroddiad eich archwiliad hylendid diwethaf i wneud yn siŵr eich bod wedi gweithredu ar unrhyw gamau a nodwyd i sicrhau eich bod yn bodloni gofynion cyfreithiol. Os nad ydych yn gallu dod o hyd i'ch adroddiad diwethaf, cysylltwch ag adran iechyd yr amgylchedd eich awdurdod lleol, a ddylai allu rhoi copi i chi.

- Pan fyddwch chi'n cael eich archwiliad hylendid bwyd rheolaidd nesaf, gofynnwch am eich sgôr presennol neu sgôr yn y dyfodol o dan y cynllun cenedlaethol. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y camau gweithredu sydd angen i chi eu cymryd i gael gwell sgôr, dylai'r swyddog diogelwch bwyd allu eich cynghori.
- Gwnewch yn siŵr eich bod chi a'ch staff yn parhau i gydymffurfio â phob agwedd ar gyfraith hylendid bwyd bob amser.

Mae hylendid gwael yn golygu sgôr gwael, ac mae sgôr gwael yn ddrwg i'ch busnes. Diolch byth fod gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd amrywiaeth o adnoddau a allai eich helpu i reoli hylendid bwyd a chadw eich cwsmeriaid. Mae'r rhain ar gael yn **food.gov.uk/goodbusiness – cliciwch ar y ddolen Gymraeg**

A oes rhagor o wybodaeth ar gael?

- Cysylltwch â gwasanaeth iechyd yr amgylchedd eich awdurdod lleol. Gallwch ddod o hyd i'w manylion cyswllt drwy ddefnyddio teclyn chwilio'r Asiantaeth ar-lein: **food.gov.uk/yourarea**
- Ewch i wefan yr Asiantaeth i gael rhagor o wybodaeth am y cynllun sgorio hylendid cenedlaethol: **food.gov.uk/hygieneratings**